**EITEM 10**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **FFORWM CYLLIDEB YSGOLION** |
| **DYDDIAD** | **18 Mehefin 2018** |
| **TEITL** | **Cytundebau Lefel Gwasanaeth 2018/19** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Derbyn yr adroddiad** |
| **AWDUR** | **Owen Owens**<br>**Uwch Reolwr Gwasanaeth Adnoddau Addysg** |
| **AELOD CABINET DROS ADDYSG** | **Y Cynghorydd Gareth Thomas** |

1 <u>Cytundebau Lefel Gwasanaeth</u>

Mae Cyngor Gwynedd yn cynnig Cytundebau Lefel Gwasanaeth ar gyfer amrediad o wasanaethau i ysgolion, ac mae cyfnod y cytundebau wedi dod i ben 31/03/18. Felly mae'r cytundebau yn cael eu cynnig eto am y cyfnod 1/04/18 i 31/03/21.

Gan fod y gwaith o sefydlu trefn y Swyddfeydd Ardal yn parhau, rhoddodd y Fforwm Cyllideb Ysgolion ei sêl bendith ar ymestyn y CLGau 'Uned Gefnogi Addysg' (cynradd) a 'Personél, Cyflogau a Chefnogaeth Gyfreithiol' presennol am flwyddyn ychwanegol (2018/19). Fodd bynnag, mae'r CLG 'Uned Gefnogi Addysg' yn cynnwys adran o wasanaethau ychwanegol sydd i'w treialu yn ddigost i ysgolion ar gyfer 2018-19.

Mae ffurf y CLG Cynnal Tiroedd yn hollol newydd ar gyfer 2018-21 ac mae gwaith cyfrifo manwl ar gyfer anghenion pob safle ysgol unigol wedi'i wneud a'i anfon at yr ysgolion perthnasol.

Ar gyfer 2018-19, mae pris y CLG Cynnal Tiroedd yn cyfateb i bris y llynedd ar ôl ychwanegu chwyddiant. *Bydd rhaid edrych ar ail fodelu'r dyraniadau ar gyfer Cynnal Tiroedd i ysgolion i'r dyfodol fel eu bod yn adlewyrchu'n well gofynion cynnal tiroedd y safleoedd unigol. Y nod fyddai cyrraedd sefyllfa ble mae cost gwasanaethau craidd y CLG Cynnal Tiroedd i ysgol yn cyfateb i ddyraniad yr ysgol.*

Gweler yn yr atodiad grynodeb o ymatebion yr ysgolion, a sylwadau'r ysgolion ar y gwahanol gytundebau a dderbyniwyd hyd at 7 Mehefin, 2018.